**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (BLAENAU FFESTINIOG, GWYNEDD) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIAD TRAFFIG DROS DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gallu cynnal digwyddiad ffilmio ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, ym Mlaenau Ffestiniog, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y digwyddiad) a phob beiciwr rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A470 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno hefyd. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro hyn yn weithredol o 18:00 o'r gloch tan 19:30 o'r gloch ar 1 Hydref 2022.

Gosodir terfyn cyflymder 30 mya dros dro a gwaharddiad dros dro ar oddiweddyd ar y darn o gefnffordd yr A470 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Disgwylir y bydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad dros dro yn weithredol o 12:00 o'r gloch tan 23:59 o'r gloch ar 2 Hydref 2022.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Hydref 2022 a bydd yn para am 2 ddiwrnod ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd cerbydau a beicwyr dros dro**

Y darn o'r gefnffordd ym Mlaenau Ffestiniog, Gwynedd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Sgwâr y Parc hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol cylchfan yr A470/A496.

**THE A470 TRUNK ROAD (BLAENAU FFESTINIOG, GWYNEDD) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTION) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to enable a filming event to be held on or near the A470 trunk road at Blaenau Ffestiniog, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the event) and cyclists from proceeding on the length of the A470 trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative route is also described therein. These temporary prohibitions are expected to operate from 18:00 – 19:30 hours on 1 October 2022.

A temporary 30 mph speed limit and a temporary prohibition on overtaking will be imposed on the length of the A470 trunk road described in Schedule 2 to this Notice. The temporary restriction and prohibition are expected to operate from 12:00 – 23:59 hours on 2 October 2022.

The Order comes into force on 1 October 2022 and has a maximum duration of 2 days.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Temporary prohibition of vehicles and cyclists**

The length of the trunk road at Blaenau Ffestiniog, Gwynedd that extends from its junction with Park Square to its junction with the south-eastern side of the A470/A496 roundabout.

Y llwybr arall

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de fydd mynd ar yr A496 tua'r de am oddeutu 2 filltir, cymryd y ffordd lle y gwelir arwydd ar gyfer Blaenau Ffestiniog ac ailymuno â'r A470 ym Manod: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd.

## ATODLEN 2
## Terfyn cyflymder 30 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd ym Mlaenau Ffestiniog, Gwynedd sy'n ymestyn o'r arwyddion terfyn cyflymder 40 mya parhaol sydd 370 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Ffordd Glanpwll hyd at bwynt 2.19 cilometr i'r gogledd o'r arwyddion terfyn cyflymder parhaol hynny.

Alternative route

The alternative route for southbound traffic is via the southbound A496 for approximately 2 miles, take the road signposted for Blaenau Ffestiniog and rejoin the A470 at Manod: vice versa for northbound traffic.

## SCHEDULE 2
## Temporary 30 mph speed limit and no overtaking

The length of the trunk road at Blaenau Ffestiniog, Gwynedd that extends from the permanent 40 mph speed limit signs located 370 metres north of its junction with Glanypwll Road to a point 2.19 kilometres north of those permanent speed limit signs.